

Bwletin Awdurdod S4C Awst/Medi 2000

Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, trafododd Awdurdod S4C y canlynol:

Llongyfarchiadau

Llongyfarchwyd Mr Nic Parry ar ei ddyrchafiad i fod yn Farnwr; a Ms Janet Lewis-Jones ar ei phenodiad fel aelod o Fwrdd Rheoleiddio Swyddfa'r Bost.

Adolygiad Gwariant Blynyddol/Y Papur Gwyn ar Gyfathrebu

Cyfeiriwyd at ddatganiad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau, a Chwaraeon yn ymwneud â'r adolygiad gwariant blynyddol. Datganodd yr Ysgrifennydd Gwladol mai ei ddwy flaenoriaeth oedd: i godi ymwybyddiaeth chwaraeon a ffitrwydd ymhlith plant; ac i gael plant mewn ardaloedd difreintiedig i gymryd diddordeb yn y celfyddydau. Yn erbyn y cefndir hwn, felly, dysgodd S4C gyda siom na fu ei chais am arian ychwanegol yn 2001 yn llwyddiannus. Cytunwyd mai'r peth pwysicaf i ganolbwyntio arno nawr oedd i geisio sicrhau cynnydd ariannol tymor hir yn sgil y Ddeddf Gyfathrebu newydd a thrafodwyd syniadau ynglyn â sut i fynd ati.

Y Cynulliad – Pwyllgor Addysg Ôl-16

Soniwyd am fwriad y Pwyllgor Addysg Ôl-16 i ymgymryd ag adolygiad o'r celfyddydau yng Nghymru ac i argymhell bod fforwm ar gyfer creadigrwydd yn cael ei sefydlu. Roedd y Cadeirydd ar ddeall pe bai'r fath fforwm yn cael ei sefydlu y byddai S4C yn derbyn gwahoddiad i fod yn rhan ohono.

Elusen S4C

Cyfeiriodd y Cadeirydd at lythyr caredig iawn a dderbyniwyd oddi wrth yr NSPCC. Codwyd £200,000 ar gyfer yr NSPCC, sef dwbl y swm a godwyd ar gyfer elusen y llynedd. Tra bu'r trefnydd yn hynod o ddiolchgar i S4C am ddewis yr NSPCC eleni, awgrymodd efallai y gellid fod wedi codi hyd yn oed mwy o arian pe bai'r elusen wedi cael yn gwybod yn gynharach yn y flwyddyn ei bod wedi ei dethol. O ganlyniad, roedd S4C yn bwriadu dechrau'r broses o hysbysebu am, a dewis, elusen y flwyddyn nesaf ynghynt.

BECTU

Cyfeiriodd y Cadeirydd at lythyr gan BECTU a ymddangosodd yn y wasg yn gofyn iddi hi a'r Prif Weithredwr ymddiswyddo. Byddai'r Prif Weithredwr yn ateb y llythyr, hefyd trwy'r wasg, yn gosod allan y sefyllfa ffeithiol gywir a safbwynt S4C.

Adolygu Perfformiad yn erbyn Cynllun Corfforaethol 2000

Derbyniwyd adroddiad yn adolygu perfformiad S4C yn erbyn y targedau yn ei Chynllun Corfforaethol ar gyfer 2000. Nodwyd bod y mwyafrif mawr o'r targedau yn cael eu cwrdd. Nodwyd, hefyd, er hynny bod perfformiad yn erbyn y targed parthed cyfran gwylio yn y Gogledd i lawr a chanolbwyntiodd y drafodaeth, felly, ar ba ffactorau yn gyfrifol a beth ellid ei wneud i adfer y sefyllfa. Cytunodd Aelodau'r Awdurdod gyda'r strategaeth oedd dan sylw gan swyddogion S4C a'r trafodaethau y byddai'n rhaid eu cynnal gyda rhai cyflenwyr er mwyn ei wireddu.

Canllawiau Cydymffurfiaeth

Soniodd y Prif Weithredwr y byddai gofyn i'r Awdurdod benderfynu ar ddiwygio canllawiau cydymffurfio S4C yn ystod yr Hydref a chyfeiriodd yn benodol at gwestiynau iaith ac at adroddiad yr Uned Fonitro ar y defnydd o Saesneg yn rhaglenni Cymraeg S4C (gweler y nodyn ar adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth isod). Yn benodol, gofynnwyd i'r Aelodau ystyried os oedd angen gwneud unrhyw ymchwil bellach yn ymwneud â iaith. Ar ôl trafodaeth, daethpwyd i'r casgliad nad oedd angen comisiynu unrhyw ymchwil bellach ar hyn o bryd.

Cytunwyd y byddai'r newidiadau amrywiol y bwriedir eu cyflwyno i'r Canllawiau Cynhyrchu yn cael eu trafod gyda chyflenwyr rhaglenni S4C yn y seminar i'w gynnal yn Aberystwyth ar 10 Hydref 2000, cyn iddynt gael eu cyflwyno i ystyriaeth derfynol yr Awdurdod.

Rhyngweithio a'r We

Rhodddwyd i'r Awdurdod adroddiad a chyflwyniad ar y datblygiadau diweddaraf parthed rhyngweithio a'r safle we. Yn benodol, gofynnwyd i Aelodau'r Awdurdod ystyried y canllawiau polisi drafft ar gyfer safle we S4C. Nodwyd bod copi o'r polisi drafft wedi'i ddanfôn at yr holl gyflenwyr a chwmnïau adnoddau yn gofyn am sylwadau a chan na dderbyniwyd unrhyw sylwadau negyddol, roedd swyddogion S4C bellach yn argymhell i Aelodau'r Awdurdod eu mabwysiadu'n ffurfiol. Cytunodd yr Awdurdod y dylid mabwysiadu'r Canllawiau Polisi ar gyfer safle we S4C fel y'u cyflwynwyd.

Coleg Digidol

Trafodwyd y sefyllfa ddiweddaraf parthed datblygiad y Coleg Digidol. Ystyriwyd y trefniadau parthed y ddwy lefel o bartneriaeth, sef, prif bartneriaid a phartneriaid cynorthwyol; y sefyllfa parthed cynnig am arian Amcan 1; a'r sefyllfa parthed ariannu rhaglenni. Cynhaliwyd trafodaeth hir a manwl ar drefniadau ariannu'r Coleg Digidol a chyfraniadau y partneriaid eraill. Cadarnhaodd yr Aelodau eu cefnogaeth i'r Coleg Digidol a'u dymuniad i'w weld yn llwyddo a daethpwyd at gytundeb ar gais gan y Coleg Digidol parthed dull o ariannu comisiynau eleni.

Adolygiad Cyflog Blynyddol

Adroddodd y Prif Weithredwr ar y sefyllfa parthed adolygiad cyflog blynyddol a chyfeiriodd at y ffaith mai'r chwyddiant (RPI) ar gyfer y flwyddyn oedd 3.3%. Ar ôl trafod yr holl amgylchiadau perthnasol, cytunodd yr Awdurdod y dylid awdurdodi'r Prif Weithredwr i gynnig i staff hyd at 3.3% fel codiad cyflog cyffredinol.

Adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth

Trafodwyd adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth yn dilyn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2000. Yn benodol, soniwyd bod yr adroddiad ar Saesneg yn rhaglenni Cymraeg S4C wedi bod yn werthfawr. Roedd y rhestrau oedd yn nodi'r holl achlysuron o ddefnydd o'r Saesneg o ddiddordeb arbennig a chynhaliwyd trafodaeth ar yr hyn yr ystyriai'r Aelodau ei fod yn dderbyniol a beth ellid, er enghraifft, fod wedi ei ddybio. Diolchodd yr Aelodau i'r Uned Fonitro a'r Grwp Cydymffurfiaeth am eu gwaith ar y pwnc hwn.

Adroddiad y Cyfarwyddwr Rhaglenni

Derbyniwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Rhaglenni ar y gwasanaeth rhaglenni. Rhoddwyd sylw penodol i'r darllediadau o Eisteddfod Gydwladol Llangollen ac o'r Sioe Amaethyddol Frenhinol. Nodwyd bod yn agos at 45 awr o raglenni o Eisteddfod Gydwladol Llangollen, 8 a thri-chwarter ar analog a 36 ychwanegol ar S4C Digidol wedi'u darlledu. Credwyd bod y rhaglenni'n lliwgar ac yn fywiog ac wedi llwyddo i adlewyrchu y cystadlu swyddogol a bwrlwm y gweithgareddau answyddogol yr Eisteddfod yn dda.

Trafodwyd hefyd y darllediadau o'r Sioe yn ystod yr wythnos a aeth heibio. Teimlwyd bod y rhaglenni wedi bod yn rhai penigamp gan adlewyrchu nid yn unig ddigwyddiadau'r prif gylch ond y Sioe yn ei chyfanrwydd.

Yn ogystal, tynnwyd sylw at rai o'r rhaglenni i'w darlledu yn y mis i ddod gan gynnwys dwy gyngerdd gan Bryn Terfel o'r Faenol; darllediadau o'r Eisteddfod Genedlaethol trwy gydol y dydd ar ddigidol ac, hefyd, byddai digwyddiadau o'r Babell Lân yn cael eu dangos gyda'r nos. Yn ogystal, cyn cyfarfod nesaf yr Awdurdod byddai dwy raglen ar Owain Glyndwr yn cael eu darlledu yn un rhaglen ddogfen drom a'r llall yn rhaglen fwy ysgafn.

Materion Eraill

Nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Cwynion
- Cofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd 14 Gorffennaf 2000
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Ariannol
- Gweithgareddau Masnachol
- Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth a gynhaliwyd 30 Mehefin 2000.

Cyfarfodydd Nesaf

Bydd cyfarfod agored yn cael ei gynnal yn y Ganolfan Hamdden ym Mlaenau Ffestiniog ar nos Iau, 28 Medi 2000, a'r cyfarfod busnes nesaf yn cael ei gynnal ar 29 Medi 2000, hefyd ym Mlaenau Ffestiniog.